CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2006 Rhif 177 (Cy.28)

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff awdurdod derbyn (yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 89(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998)) amrywio'r trefniadau derbyn y mae wedi'u penderfynu ar gyfer blwyddyn ysgol benodol.

Mae rheoliad 3 yn darparu y caiff awdurdod derbyn, heb weithdrefnau pellach neu gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, amrywio'r nifer a dderbynnir y mae wedi'i benderfynu ar gyfer unrhyw grŵp oedran perthnasol lle bo'n angenrheidiol i weithredu cynigion statudol a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd o dan adran 28 o Ddeddf 1998, a bod angen amrywio'r nifer a dderbynnir i weithredu'r cynigion hynny. Yn yr amgylchiadau hynny, nid yw'r gweithdrefnau newid trefniadau derbyn yn adran 89(5) i (7) o'r Ddeddf 1998 yn gymwys.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2006 No. 177 (W.28)

## EDUCATION, WALES

# The Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe the circumstances in which an admission authority may (in addition to the circumstances set out in section 89(5) of the School Standards and Framework Act 1998 (the 1998 Act)) vary the admission arrangements they have determined for a particular school year.

Regulation 3 provides that an admission authority may, without further procedures or approval from the National Assembly, vary the admission number they have determined for any relevant age group where such a variation is necessary to implement approved statutory proposals published under section 28 of the 1998 Act, and a variation of the admission number is necessary to implement those proposals. In those circumstances, the procedures for changing admission arrangements in section 89(5) to (7) of the 1998 Act do not apply.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 177 (Cy.28)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

*Gwnaed* *2006*

*Yn dod i rym* *1 Chwefror 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 89(8)(e) ac (f), a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwyso ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**-(1) Yn y rheoliadau hyn-

ystyr "cynigion statudol" ("*statutory proposals*") yw cynigion a gyhoeddwyd o dan adran 28;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "nifer a dderbynnir" ("*admission number*") yw nifer y disgyblion yn unrhyw grŵp oedran perthnasol y bwriedir eu derbyn yn unrhyw flwyddyn ysgol fel a benderfynir neu, lle bo'r cyd-destun yn mynnu, y bwridedir ei benderfynu, gan awdurdod derbyn yn unol ag adran 89A(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliadau hyn at adran â rhif neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf neu'r Atodlen honno i'r Ddeddf.

(**1**) 1998 p.31. Ar gyfer diffiniad "*prescribed*" a "*regulations*" *gweler adran* 142 o Ddeddf 1998.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 177 (W.28)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006

*Made* *2006*

*Coming into force* *1 February 2006*

In exercise of the powers conferred upon The Secretary of State by sections 89(8)(e) and (f), and 138(7) of the School Standards and Framework Act 1998(**1**) now vested in the National Assembly for Wales(**2**), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1.**-(1) The title of these Regulations is The Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 1 February 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.**-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the School Standards and Framework Act 1998;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"admission number" ("*nifer a dderbynnir*") means the number of pupils in any relevant age group intended to be admitted in any school year as determined or, where the context requires, proposed to be determined, by an admission authority in accordance with section 89A(1);

"statutory proposals" ("*cynigion statudol*") means proposals published under section 28.

(2) Any reference in these Regulations to a numbered section or Schedule is a reference to that section of, or Schedule to, the Act.

(**1**) 1998 c.31. For the meaning of "prescribed" and "regulations" *see* section 142 of the 1998 Act.

(**2**) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

**Amrywio'r trefniadau derbyn**

**3.-**(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi at ddibenion adran 89(8)(e) yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod derbyn, ar ôl iddo benderfynu'r trefniadau derbyn a fydd yn gymwys ar gyfer blwyddyn ysgol benodol, (yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 89(5)) amrywio'r trefniadau hynny.

(2) Caiff awdurdod derbyn amrywio'r nifer a dderbynnir os yw amrywiad o'r fath yn angenrheidiol i weithredu y cynigion statudol-

(a) os cafodd y cynigion eu cymeradwyo o dan baragraff 8 o Atodlen 6; neu

(b) os yw'r corff neu'r hyrwyddwyr a gyhoeddodd y cynigion wedi penderfynu o dan baragraff 9 o'r Atodlen honno weithredu'r cynigion.

(3) Nid yw gofynion adran 89(5) i (7) (amrywio arfaethedig ar drefniadau derbyn wrth ystyried newid mawr mewn amgylchiadau) yn gymwys i amrywiad arfaethedig o dan paragraff (2).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

31 Ionawr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.

**Variation of admission arrangements**

**3.-**(1) This regulation prescribes for the purposes of section 89(8)(e) the circumstances in which an admission authority, having determined the admission arrangements which are to apply for a particular school year, may (in addition to the circumstances set out in section 89(5)) vary those arrangements.

(2) An admission authority may vary an admission number where such variation is necessary to implement statutory proposals where-

(a) the proposals have been approved under paragraph 8 of Schedule 6; or

(b) the body or promoters who published the proposals have determined under paragraph 9 of that Schedule to implement the proposals.

(3) The requirements of section 89(5) to (7) (proposed variation of admission arrangements in view of a major change of circumstances) do not apply to a proposed variation under paragraph (2).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

31 January 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 177 (Cy.28)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 177 (W.28)

## EDUCATION, WALES

The Education (Variation of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006

©㉿ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0234/02/06 ON